Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talysarn
# Y Ganolfan
# Ffordd yr Orsaf
# Talysarn
# Caernarfon
# LL54 6HL

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Talysarn, sydd yn cwrdd mewn caban ar safle Canolfan Talysarn, ger Caernarfon, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad yn agor yn y bore a'r prynhawn am bum diwrnod yr wythnos ac mae yno saith ymarferwr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 24 o'r plant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Mae Dechrau'n Deg yn ariannu'r plant dwy flwydd oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig a'r mwyafrif ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym mis Rhagfyr 2014. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2015 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o fan cychwyn, sydd ar y cyfan, yn is na'r cyfartaledd
- llawer o'r plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwrtais
- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang ac ysgogol, sy'n cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus
- disgwyliadau uchel gan ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio'r plant yn synhwyrol
- asesu cywir yn arwain at ddatblygu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol
- ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant
- ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau'n llwyddiannus i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfarwyddyd clir i holl waith y lleoliad ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'r ymarferwyr a'r plant
- y pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn monitro'r ddarpariaeth yn ddeallus
- diwylliant cryf o hunanarfarnu a sicrhau gwelliant cyson
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol effeithiol
- partneriaethau llwyddiannus gyda rhieni ac asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth a dysgu'r plant yn bwrpasol
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn synhwyrol ac yn blaenoriaethu gwariant yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella amseru y sesiynau torfol i gynnal diddordeb pob un plentyn

A2 Sicrhau bod y broses newydd o archwilio cyfrifon yn flynyddol yn sicrhau rheolaeth ariannol effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O fan cychwyn, sydd ar y cyfan yn is na'r cyfartaledd, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn gweithio gyda'i gilydd ac oedolion yn llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh effeithiol.

Mae llawer o'r blant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn bwrpasol mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws heb anogaeth gan oedolion. Maent yn ymateb yn ddeallus i holi gan yr ymarferwyr yn ystod amseroedd torfol ac wrth wrando a thrafod storïau mewn parau. Mae llawer o'r plant yn datblygu eu defnydd dyddiol o iaith yn dda ac maent yn siaradwyr naturiol a hyderus. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir iddynt yn brydlon ac yn canu hwiangerddi a chaneuon yn y Gymraeg yn frwdfrydig.

Mae llawer o'r blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn ystyried diben y lluniau yn ddeallus. Maent yn ymateb i bwrpas yr ysgrifen a threfn storïau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion cymeriadau cyfarwydd fel anifeiliaid y sw yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar hyderus. Maent yn cysylltu gweithredoedd ag emosiynau yn gywir, fel adnabod mai'r crocodeil â'r dannedd mawr a miniog yw'r dihiryn yn stori'r mwnci sy'n edrych am ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau yn ddiwyd â phrofiadau ysgrifennu cynnar, fel defnyddio sialc ar waliau a byrddau du, ysgrifbinnau lliw i gopïo siapiau, i sgriblo ac i ddilyn llinellau yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn esbonio pwrpas ysgrifennu yn y cyd-destun cywir, er enghraifft mewn cegin a siop hufen iâ ac wrth ddefnyddio'u bysedd i greu llythrennau mewn tywod. Mae ychydig o blant yn adnabod eu henwau eu hunain yn rheolaidd ac maent yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau y gallwch eu hadnabod.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i 10 gyda chymorth oedolyn yn hyderus. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth iddynt drafod siapiau a'u cymharu, a pharu rhifau wrth chwarae bingo. Mae ychydig ohonynt yn cyfrif â chywirdeb i 15 a thu hwnt heb anogaeth. Mae llawer o'r plant yn didoli siapiau a gwrthrychau gwahanol i bowlenni lliw yn llwyddiannus ac yn rhifo'n gywir sawl gwrthrych sydd ynddynt. Mae ychydig o'r plant yn deall yn glir sut i ddechrau bondio rhifau at bump yn llwyddiannus, gan ddefnyddio eu bysedd eu hunain a thrwy drefnu gwrthrychau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio rhifau yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol, er enghraifft wrth gymharu nifer y siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn a ddefnyddir wrth adeiladu tŷ haf i gymeriad o lyfr a ddarllenwyd i'r plant. Hefyd, maent yn cyfrif nifer y trenau sy'n teithio o amgylch trac a sawl car y gellir ei barcio'n ofalus mewn maes parcio garej. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall

gwahaniaethau mewn maint wrth fesur gwrthrychau â'i gilydd gyda thâp mesur ac archwilio mwydod a hadau gyda chwyddwydr. Maent yn esbonio'n llwyddiannus p'un a yw gwrthrychau'n 'fawr' neu'n 'fach', 'trwm' neu'n 'ysgafn', 'uwchben' neu 'oddi tano' a 'chyntaf' neu'n 'olaf'.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio technoleg yn bwrpasol a hyderus. Maent yn gwneud hyn trwy ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, chwaraeydd cryno ddisgiau, llechi a theganau electronig a chyfrifiadur mewn gweithgareddau ffocws a pharhaus. O ganlyniad, mae eu defnydd o feddalwedd a chaledwedd addysgol yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac yn perfformio'n frwdfrydig wrth symud i rythmau gwahanol. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn dda wrth yrru beiciau a cherbydau'n fywiog a neidio o un cylch i'r llall yn yr ardal allanol. Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ddatrys problemau ymarferol, er enghraifft trwy ddefnyddio glud, blychau cardfwrdd, sisyrnau a deunyddiau naturiol i adeiladu gwahanol fodelau o sbwriel.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n gysurus ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent yn dangos cymhelliant brwd tuag at weithgareddau amrywiol ac yn canolbwyntio'n bwrpasol ar eu dysgu. Maent yn mwynhau'r tasgau ym mhob maes dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â llif dŵr mewn cafnau a phlannu blodau a llysiau yn yr ardd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau mynegi barn a'u hoffterau personol yn synhwyrol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasgau penodol neu ddechrau gweithgareddau newydd o'u dewis eu hunain. Maent yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae. Mae hyn yn amlwg pan fydd llawer ohonynt yn esbonio'n feddylgar pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau. Maent yn gwbl hyderus a chadarn wrth nodi pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb yn gyfrifol i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn brwsio eu dannedd gyda'i gilydd a phan fyddant yn gwisgo eu cotiau i chwarae yn yr awyr agored. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae bawlyd ac anniben a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb ormod o anogaeth gan ymarferwyr. Maent felly'n deall yn glir fod glendid yn bwysig i gynnal bywyd iachus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r holl brofiadau dysgu yn targedu diddordebau

ac anghenion y plant yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd ysgogol. Enghraifft o hyn yw rhoi cyfle i'r plant i brynu hufen iâ oddi wrth fan lleol i atgyfnerthu'r dysgu a'r themâu'n ystyrlon. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd synhwyrol i blant gyfrannu eu syniadau at gynllunio yn ystod amseroedd cylch.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl y plant yn gyson a thrwyadl. Mae'r ymarferwyr yn galluogi plant i ddewis offer addas i ddatrys problemau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r thema gyfredol, er enghraifft eu hannog i greu tirlun glan môr gyda thywod, cregyn a cherrig mân.

Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i blant fynegi eu hunain ac i ddatblygu eu medrau creadigol a mynegiannol yn bwrpasol trwy chwarae rôl yn y gegin a'r ardal gwisgo i fyny. Maent yn canolbwyntio ar fedrau ymchwiliol yn effeithiol yn yr ardaloedd darganfod, fel darparu cyfleoedd i ddefnyddio synhwyrydd metel i ddarganfod pysgod â gwahanol rifau arnynt yn y tywod. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n systematig ar ddealltwriaeth a medrau presennol plant yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus iawn. Mae'r ymarferwyr yn fodelau naturiol a chadarn o'r iaith. Maent yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau difyr. Maent yn herio a holi'r plant yn rheolaidd yn yr ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan. Mae'r holl ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant sy'n dysgu'r iaith yn effeithlon a herio'r siaradwyr hyderus i wella safon eu hiaith. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y plant o'r Gymraeg yn datblygu'n gynyddol, a'r defnydd o'r iaith yn gwella'n gyson. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, coginio cawl cennin a phobi cacennau traddodiadol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddefnyddio ystod o offer fel bwrdd gwyn rhyngweithiol, chwaraeydd cryno ddisgiau, cyfrifiadur a llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio'r plant yn llwyddiannus, gan ddefnyddio meddalwedd pwrpasol yn y Gymraeg a chaledwedd addysgol i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar a'u rheolaeth o gyfarpar technolegol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn ddeallus. Er enghraifft, maent yn gadael iddynt ysgwyd parasiwt gyda'i gilydd, dringo llithren, chwarae yn yr ardd a'r cromenni helyg, a gyrru beiciau a cherbydau'n fywiog. Hefyd, mae pwyslais effeithiol ar ddatblygu creadigrwydd y plant trwy arbrofi â phaent, a chwarae rôl yn y gegin fwd a'r 'den darganfod'.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i wyliau Mudiad Meithrin, y sw môr, teithiau o gwmpas y pentref i bostio llythyron a gwibdeithiau i'r goedwig leol. Mae nifer o ymwelwyr yn ymweld â'r lleoliad fel swyddogion y gwasanaethau brys a gwerthwyr hufen iâ, ac mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Maent yn gyfarwydd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol, dan do ac yn yr ardal allanol.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio plant yn synhwyrol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Maent yn ymyrryd yn fedrus yn chwarae'r plant yn ôl yr angen er mwyn sicrhau eu bod yn deall ar lefel unigolyn ac yn eu cymell i berfformio ar eu gorau yn ystod tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus. Mae ymarferwyr yn holi plant yn feddylgar er mwyn datblygu eu medrau cyfathrebu, rhif, TGCh a meddwl. Fodd bynnag, ar adegau, nid ydynt yn amseru sesiynau torfol yn ddigon da i gynnal diddordeb pob un plentyn yn effeithiol. O ganlyniad, mae traean o'r plant ifancach yn aflonydd yn ystod amser stori ac wrth iddynt ymateb i heriau'r dydd.

Mae ymarferwyr yn cyfarch plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd, ac mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiwn. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn yr holl weithgareddau yn llwyddiannus. Mae'r system o rannu cyfrifoldebau yn sicrhau bod her gyson i wahanol blant, ac mae hyn yn targedu datblygiad llythrennedd a rhifedd y plant hyn yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Mae pob ymarferwr yn cofnodi asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith yn ystod tasgau ffocws. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau dyddiol yn effeithiol yn llyfrynnau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cysylltu'r dystiolaeth yn gydwybodol â deilliannau plant unigol. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau, sy'n targedu'r camau nesaf yn nysgu plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r lleoliad yn darparu llyfrynnau ac adroddiadau defnyddiol i rieni pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp yn synhwyrol i annog y plant i ystyried teimladau ei gilydd. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd cyson ar gael i blant greu amgylchedd tawel, wrth iddynt eistedd i wrando ar oedolion a phlant eraill. O ganlyniad, mae plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt fwyta eu byrbrydau mewn grwpiau bach. Yn ystod y sesiynau hyn, mae cyfleoedd effeithiol i blant fynegi eu dewisiadau, wrth iddynt benderfynu ar eu byrbrydau a'u diod.

Mae trefniadau effeithlon i gefnogi iechyd a lles plant, gan gynnwys systemau pwrpasol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn dda i'w cyrff a'u hiechyd. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd ac mae hyn yn datblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae ymarferwyr yn gofalu'n ddiwyd am y plant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer cefnogi unrhyw blentyn ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos a diwyd ac yn arsylwi plant yn ofalus. Mae hyn yn eu helpu i nodi pryderon sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol. Maent yn gweithredu ar y rhain trwy gyfathrebu â rhieni a derbyn cyngor gan asiantaethau arbenigol, fel y lleferydd iaith i helpu symud ymlaen ag ymyrraeth benodol. Mae'r lleoliad yn cadw cofnodion ffurfiol o sylwadau ychwanegol i'w helpu i olrhain cynnydd y plant hyn yn drylwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n hyrwyddo ethos gofalgar trwy'r holl weithgareddau dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddathlu gwyliau o bob cwr o'r byd, fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd, a defnyddio doliau o wahanol ddiwylliannau yn chwarae'r plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod pob un plentyn yn cael yr un cyfle i elwa o weithgareddau ysgogol yn yr ardaloedd dysgu a chael defnydd cyfartal o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r ymarferwyr yn adnabod pob un o'r plant yn dda ac yn deall ac yn ymateb i anghenion unigol y plant yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ystod eang o adnoddau diddorol yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau â ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu. Maent yn galluogi plant i ddefnyddio adnoddau yn annibynnol, ac mae hyn yn datblygu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol.

Mae'r adeilad yn lân ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae'r ardal awyr agored yn ysgogol ac yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, ardaloedd creadigol ac offer anturus. Mae sied chwarae rôl yn galluogi plant i actio a datblygu eu medrau dychmygus yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal awyr agored yn gyson i gyfoethogi profiadau plant. Maent hefyd yn defnyddio'r amgylchedd lleol yn llwyddiannus i ychwanegu at brofiadau dysgu plant, fel ymweliadau â'r pentref a'r goedwig.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn ar gyfer arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar fodloni anghenion plant a sicrhau gwelliannau yn eu safonau a'u lles.

Mae'r arweinydd yn arwain tîm o ymarferwyr ymroddgar yn gydwybodol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'r ymarferwyr a'r plant. Mae hi'n llwyddo i'w hannog i wella mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol. Mae'r arferion cadarnhaol hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gweledigaeth yr arweinydd yn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn llwyddo i wella deilliannau'r plant.

Mae'r arweinydd yn rhannu gwybodaeth am arferion y lleoliad yn effeithlon gyda phob un o'r ymarferwyr ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio'r cwricwlwm a gweithgareddau cysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod pob un ymarferwr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio gyda'i gilydd yn ddyddiol fel tîm effeithiol. Hefyd, maent yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn ddiwyd, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd a defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i effeithio'n dda ar fedrau'r plant.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae'r arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd yn sicrhau bod yr arweinydd yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae hyn yn hynod amlwg mewn tasgau llythrennedd, rhifedd, TGCh a thasgau creadigol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth fuddiol am arferion y lleoliad gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu'r gweithgareddau a digwyddiadau i godi arian yn rheolaidd. Maent yn herio'r lleoliad yn gyson fel ffrind beirniadol i wella'r ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw sicrhau defnydd cyson o galedwedd TGCh i gyfoethogi gweithgareddau technoleg a dysgu'r plant. Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau grantiau'n dda er mwyn gwella'r ddarpariaeth barhaus a chynnal digon o ymarferwyr i weithredu cwricwlwm diddorol. Mae cyfrifon banc ar gael a derbynebau misol yn cyfateb iddynt. Fodd bynnag, mae'r broses o archwilio'r cyfrifon yn flynyddol i sicrhau rheolaeth ariannol effeithiol yn newydd. Nid yw'r broses wedi gwreiddio'n gadarn yn systemau rheoleiddio ariannol y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r prosesau i hunanarfarnu arferion a gweithredoedd y lleoliad yn drwyadl ac mae'r arweinwyr yn monitro safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd synhwyrol o systemau'r awdurdod lleol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ar gyfer y lleoliad. Ystyrir barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn bwrpasol. Mae'r arweinydd yn gweithredu'n fuddiol ar eu cyngor er lles y plant. O ganlyniad, mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn gydwybodol i sicrhau bod y lleoliad yn hunanwella'n effeithiol.

Mae targedau’r cynllun datblygu yn deillio’n uniongyrchol o’r broses hunanarfarnu ac yn cyfateb yn gywir i’r meysydd ar gyfer gwella yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae’r targedau’n cael eu blaenoriaethu’n effeithlon i ymateb yn bwrpasol i unrhyw ddiffygion yn nysgu’r plant neu’r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys camau ac amserlenni buddiol ar gyfer cyflawni’r targedau defnyddiol. Mae monitro’r gwelliannau yn gyson yn erbyn y targedau penodol yn gwerthuso’r effaith ar ddysgu’r plant yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw’r ffordd y mae'r lleoliad yn gweithredu ar dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu i wella deilliannau’r plant.

Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n blaenoriaethu gwariant yn llwyddiannus, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Mae hyn yn arwain at welliannau defnyddiol, fel gweithredu Proffil y Cyfnod Sylfaen, gwella’r arferion asesu i gyfateb i’r cynllunio a’r defnydd o gyfarpar TGCh.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae’r arweinydd yn gweithio’n llwyddiannus gyda phartneriaid i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau’r lleoliad â’r gymuned yn cefnogi dysgu’r plant yn bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau codi arian llwyddiannus a chynigion am gyllid grant.

Mae’r bartneriaeth â Dechrau’n Deg wedi’i sefydlu’n dda. Mae’n cefnogi’r broses i greu man cychwyn cywir ar gyfer plant yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i dargedu anghenion unigolion yn gynnar, a defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o blant.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin ar gyfer cymorth gweinyddol a hyfforddiant cyfredol. Mae’r sefydliadau hyn yn cefnogi a herio’r lleoliad yn effeithiol, yn enwedig ar wella’r asesu, y cynllunio a gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli ag ysgolion lleol. Mae hyn yn cefnogi’r trefniadau pontio yn dda. Defnyddir systemau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau’r plant o un sefydliad i’r llall. O ganlyniad, mae’r trefniadau o fudd i’r plant wrth iddynt ymgynefino ag addysg gynradd.

Mae’r holl ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad, gan gynnwys trwy cyfryngau cymdeithasol, yn effeithiol. Mae’r lleoliad yn eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella’r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.

Mae ymarferwyr yn cysylltu a gweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sy’n gwneud cyfraniadau pwysig at wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad â hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, datblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau yn feddylgar. Mae'n sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion plant yn effeithiol.

Mae ei arferion arwain pwrpasol a chefnogaeth frwd y pwyllgor rheoli yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gydwybodol, lle mae cydweithredu effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn cefnogi pob agwedd ar waith y lleoliad. At ei gilydd, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn gallu defnyddio adnoddau diddorol i gefnogi eu dysgu yn effeithiol, fel caledwedd a meddalwedd TGCh.

Mae systemau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn sicrhau bod effaith gwaith dyddiol yr ymarferwyr yn effeithio'n fwriadol ar brofiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol, er enghraifft drwy hyfforddiant yr awdurdod lleol ynglŷn â darpariaeth datblygiad mathemategol yn y lleoliad.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn bwrpasol ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol â thargedau yn y cynllun datblygu yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y cynnydd cadarnhaol a wna plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 16 | 12 | 3 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 75% | 19% | 6% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 16 | 12 | 3 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 75% | 19% | 6% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 16 | 10 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 62% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 16 | 5 | 8 | 1 | 0 | 2 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 31% | 50% | 6% | 0% | | |
| | | 71% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 16 | 10 | 4 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 25% | 6% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 9 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 83% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 8 | 6 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 50% | 38% | 6% | 0% | | |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 16 | 11 | 3 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 69% | 19% | 6% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 16 | 10 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 62% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 16 | 5 | 8 | 1 | 0 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 31% | 50% | 6% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 16 | 8<br>50% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 32% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 16 | 9<br>56% | 3<br>19% | 3<br>19% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 16 | 11<br>69% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 18% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |